**<u>I gyfarch Mr T. W. Thomas<br>am hanner canrif a mwy o wasanaeth<br>fel diacon yn Bethlehem, Gwaelodygarth.</u>**

Y gwylaidd ŵr o'r Gwaelod
A Chymrawd yr Eisteddfod
Hawddamor, a chyfarchion lu
Ar ddydd y dathlu hynod.

Englynwr da a phrydydd
A thenor, a hanesydd
A phen gymodwr ymhob cur
Rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd!

Bu'n hael ei gymwynasau
I fyrdd o gymdeithasau
Heb anghofio'r ddyled fo
I'w fro ac i'w berthnasau.

Fe gafodd sawl anrhydedd
Gan Genedl a Gorsedd
Ond cyd-addoli yng nghwmni'r saint
Yw pennaf fraint ei fuchedd.

O ddynion yr hawddgara
Pob cwmwl fe wasgara
Bu'n ffyddlon was i Fethlehem
A'i drem ar Fryn Calfaria.

A heddiw am T. W.,
Y diacon diledryw,
Mawrygwn hanner canrif faith
O wir wasanaeth clodwiw.

Ifor Rees